y dinesydd

Gorffennaf/Awst 2001 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 264

***Bu ficer Eglwys Dewi Sant Caerdydd, y Parchedig Meurig Llwyd yn holi esgob Llandaf, y Gwir Barchedig Ddr Barry Morgan am ei syniadau am le'r Gymraeg yn esgobaeth Llandaf.***

# Ymlaen mewn ffydd

**ERS EICH SEFYDLU yn esgob Llandaf ym mis Medi 1999 beth yw eich argraffiadau am safle'r Gymraeg yma?**

Efallai fy mod wedi bod braidd yn naïf pan symudais o esgobaeth Bangor i Landaf a chredu bod addoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn beth naturiol yma. Cefais gryn sioc felly wrth sylweddoli cyn lleied o Gymraeg oedd yn cael ei defnyddio yn y gwasanaethau yma. Roedd hyn yn fy nharo braidd yn od oherwydd bod 'na gymaint o siaradwyr Cymraeg yn yr esgobaeth ac ymdeimlad cryf o Gymreictod, heb anghofio wrth gwrs fod William Morgan yn un o'm rhagflaenwyr. Dyma benderfynu felly bod yn rhaid rhoi lle teilwng i'r Gymraeg yn ein gwasanaethau.

**Pam fod y sefyllfa hon wedi datblygu?**

Mae'r ateb i'r cwestiwn yna yn un hir a chymhleth. Ond gyda'r chwyldro diwydiannol fe fu symud poblogaeth a thwf ymneilltuaeth. Penodwyd llawer o offeiriaid di-Gymraeg i'r plwyfi a golygodd hyn fod iaith y gwasanaethau yn newid. Yn raddol aeth y Gymraeg yn brinnach fel iaith addoliad yr Eglwys ac aeth yn ffasiwn defnyddio'r Saesneg yn unig. Fe fu tuedd hefyd i Landaf feddwl amdani ei hun fel esgobaeth ar wahân i weddill yr Eglwys yng Nghymru. Erbyn hyn mae'r llanw'n troi ond mae llawer o waith eto o'n blaenau.

**Beth am y sefyllfa heddiw?**

Mae'r sefyllfa erbyn heddiw yn fwy calonogol. Mae ein hymgeiswyr am y weinidogaeth ordeiniedig yn mynd ar gyrsiau dysgu Cymraeg, un ai yn Nant Gwrtheyrn neu yng Ngholeg Llandaf. Pan fyddwn yn mynd o amgylch yr esgobaeth rwy'n gwneud polisi o ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob gwasanaeth. Yng ngwasanaethau esgobaethol y Gadeirlan rwy'n ceisio sefydlu patrwm o wasanaethau dwyieithog. Rwyf wedi cynhyrchu gwasanaeth ordeinio newydd yn y ddwy iaith, er enghraifft. Mae'r ymateb, bron yn ddieithriad, yn ffafriol. Mae pobl yn teimlo bod y Gymraeg yn perthyn iddynt, er nad ydynt efallai yn ei deall. Gan fod y sefyllfa wleidyddol wedi newid yma yng Nghaerdydd ac yn y De Ddwyrain mae'r hinsawdd bellach yn fwy ffafriol tuag at yr iaith. Rwy'n gobeithio y gallwn fanteisio ar hyn trwy ddatblygu adnoddau addoli newydd yn Gymraeg.



*Cadeirlan Llandaf 'slawer dydd*

**Yn olaf, beth gredwch chi yw goblygiadau hyn y tu hwnt i'r Eglwys?**

Mae'n rhaid i bob un ohonom ddysgu byw gyda'n gwasanaethau a pharchu ein diwylliant ein gilydd. Ar ôl gwasanaethu yn esgobaeth Bangor am dros ugain mlynedd roeddwn yn ymwybodol iawn o gryfder y diwylliant Cymraeg. Yma, yn Llandaf, mae wedi bod yn rhy hawdd i bobl ei anwybyddu. Ond nid trwy anwybyddu ein gilydd mae dod i barchu ein gilydd. Os ydym i dyfu i fod yn gymdeithas gynhwysol mae'n rhaid i ni fod yn agored i eraill a chroesawu eu hetifeddiaeth ddiwylliannol. Ac mae'r Eglwys yn fan ardderchog i gychwyn y broses hon. Awn ymlaen mewn ffydd felly.

# Y Dinesydd

**Gorff./Awst, Rhif 264.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygyddion y rhifyn hwn:**
Gareth J. Williams a W. J. Jones

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Mr Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd

**NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.**

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Medi 2001 erbyn 20 Awst at:**
Mr Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina, Caerdydd
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754),
E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

**CALENDR**

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, at y cyfeiriad uchod.

**DOSBARTHU**

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

**HYSBYSEBION**

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

**CYFRANIADAU ARIANNOL**

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

**Cronfa'r *Dinesydd***: Diolch i bwyllgor ac aelodau Tŷ'r Cymry, Heol Gordon, Rhath, am eu rhodd hael tuag at gronfa eu papur bro.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £_________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ......................................................................

.................................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ......................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN DANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ......................................................................


.................................................. Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: ......................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 24** **Gorff./Awst 2001**



**Ar Draws**

7. ' --- y ffordd yma
Nad oes dim mor oer â'r eira (tradd.) (5,2,6)
8. 'Ymlaen y cerddaist dan y groes a'r gwawd
Heb neb o'th -
--wnaeth dy gariad pur bob cam
Ni allodd angau'i hun ddiffoddi'r fflam' (GR) 2,4,5)
12. Yn ofer es yn ôl i gwrdd â dyn garw o Loegr (6)
14. Arwydd ynglŷn â llam
16. Anifail yn cael rhan o'r arlwy yn y cwm (6)
18. Amrywiol yw y bach eu llefau (6)
19. ' --- 'a gwyd y graith
Na welir moni eilwaith (J.W.) (5,1,5)
23. 'Wrth ddychwel tuag adref
--- Ion (Ceiriog) (2,7,4)

**I Lawr**

1. Wedi talu yn Lloegr, atalia! (4)
2. Twmpath yn codi ymhlith Cŵn Caer (4)
3. Ffyrdd diddiwedd bron yr unig un a chas (6)
4. Y dall fo yn tindroi yn Lle y Dreth (1, 5)
5. Pwdin o'r pentre' isaf (4)
6. ' Fenaid glŷn wrth Grist mewn -
Pwy fel Efe! (cf. P.J.) (4)
9. Y gwir yn troi ar ei ben ei hun (7)
10. Amgylchynu a chwarae o gwmpas ar ôl Gwilym (7)
11. Pâr ar y we yn creu llinyn (4)
12. Cwis dyrys i'r dof (4)
13. Dechreuadau un lili wen yn y lludw (3)
15. ' - y mynydd ydwyf innau
Oddi cartref yn gwneud cân (Ceiriog) (3)
17. Mwydro o gwmpas y cylch (6)
18. Tocia'r hesg a gwyrdd fydd y trum (6)
19. Cam a sŵn fel saim yn Lloegr (4)
21. Creu agwedd ar yr ail yn 'Oes y Glo' (4)
22. Heb os mae mewn pansi crin (4)

**Atebion Croesair 23**

**Ar draws:** 1. Dodwy; 5. Euro; 7 Pair; 8. Esgusodi; 9. O Arglwydd; 11. Agos; 12. Ddanadl poethion; 15. Atal; 17. Eglurdeb; 19. Yma a thraw; 21. Plas; 22. Natur.

**I lawr:** 1. Alabama; 2. Dur; 3. Dienw; 4. Ymguddio; 5. Eos; 6. Radio; 10. Gwael; 11. Arthur; 13. Loetran; 14. Ochenaid; 16. Tymor; 18. :lawnt; 20, Ais; 21. Pur.

Braf oedd derbyn 14 ymgais, a 10 ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfrau at C. Jones, Pencae, Pentrefelin, Cricieth. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Miss Eira Jones a Mrs Eira Jones, y ddwy o'r Mynydd Bychan, Mair Morgan, Treganna, Beryl Hall, Cyncoed, Haydn Jones, Rhiwbeina, Gwenda Hopkins Llanisien, Rhodri Jones, Penarth, Hanna Simpson Llansanwyr a Gaenor Hall, Bow Street Ceredigion.


**Cystadleuaeth Gorff./Awst 2001**: Noder y cyfeiriad newydd ar gyfer y gystadleuaeth: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 1 Awst 2001.

## Tafarn yn y brifddinas a llongau Edern.

### Y Golden Cross

*Ydych chi'n nabod eich dinas? Ydych chi'n nabod eich tafarnau?*

Dau frawd o Edern ym Mhen-llyn, oedd Owen a Watkin Williams. Yn 1895 ymunodd y ddau i brynu llong i hwylio gyda llwyth o lo o Gaerdydd. Roedd y fentr yn llwyddiannus ac ymhen 10 mlynedd roedden nhw'n berchnogion ar nifer o longau a adweinir fel y Golden Cross Line, a fyddai'n hwylio'n wythnosol rhwng y de yma a phorthladdoedd Môr y Canoldir.




*Hysbyseb y cwmni*

Bu llawer tro ar fyd i'r ddau a'u mentr. Ar un cyfnod roedd Owen yn berchennog ar dir eang ym Mro Morgannwg a'r Gwaith Glo a arferai sefyll lle mae Clwb Rygbi Pontypridd yn awr. Mae yna sibrydion, hefyd, am garwriaeth rhwng gwraig Owen a chwaraewr criced oedd yn Maharaja yn India bell!

Oherwydd trafferthion y diwydiant llongau yn yr ugeinfed ganrif, aeth y Golden Cross Line i ebargofiant heblaw am y dafarn yng Nghaerdydd.




Tafarn y Golden Cross, gyferbyn â'r Maes Sglefrio

## Amlosgfa'r Ddraenen (*Thornhill*)

Hen enw Cymraeg Thornhill yw Draenen Pen-y-graig. Dyma apêl garedig felly, ar i bawb ohonom (gan gynnwys cyhoeddwyr angladdau yn ein heglwysi) i ddefnyddio'r enw hyfryd hwn. Wedi sgwrs â'r Dr E Wyn James, cytunem y gallem ddefnyddio rhan gyntaf yr enw yn unig (gyda'r fannod) i gyfeirio'n arbennig at yr Amlosgfa.

Fel y daethom bellach i arfer â defnyddio nifer o enwau Cymraeg ar rannau o Gaerdydd, megis y Mynydd Bychan, Tyllgoed a'r Ais, felly, yn y man, y deuwn i arfer â defnyddio'r enwau Draenen Pen-y-graig ac Amlosgfa'r Ddraenen (cyfieithiad llythrennol yw Bryn Drain, a dylid osgoi, hyd y mae modd, gyfieithiadau o'r fath).

Daliwn ar y cyfle hwn hefyd i ofyn i Gyngor Dinas Caerdydd sicrhau bod y cyfan o'r arwyddion yn yr amlosgfa'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg naill ai ar y chwith neu uwchben y Saesneg. Llawer o ddiolch am eich cefnogaeth.

**Robin Gwyndaf**

## Dyfarnu Grantiau Pwysig

Ar 14 Mehefin 2001 cyhoeddodd Pwyllgor Cymru'r Gronfa Gymunedol ei ddyfarniad diweddaraf o grantiau i'w gwario er mwyn cynorthwyo'r rhai sydd fwyaf difreintiedig mewn cymdeithas ac i helpu gwella ansawdd bywyd yn y gymuned. Y Gronfa Gymunedol yw enw gweithredol Bwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol.

Bydd Urdd Gobaith Cymru'n derbyn un o'r prif grantiau am gyfanswm o £89,662 i'w wario dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer prosiect i gynyddu'r ddarpariaeth o gyfleusterau a chlybiau trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ifanc yn ardal Caerdydd. Mae'r prosiect yn gonsortiwm rhwng yr Urdd, Menter Iaith Caerdydd a Chyngor Sir Caerdydd ac fe ddefnyddir yr arian i dalu cyflog Gweithwyr Datblygu Ieuenctid, teithio a chostau gweithredu yn ogystal â chyhoeddi llenyddiaeth addysgol esboniadol.

Hefyd yn y brifddinas bydd Shortlife Housing (Cymru) Cyf yn derbyn prif grant gwerth £164, 918, eto dros gyfnod o dair mlynedd, ar gyfer darparu cefnogaeth a chyngor i bobl mewn llety-dros-dro a'r rhai sy'n denantiaid am y tro cyntaf, Fe ddefnyddir yr arian i dalu am ddwy swydd amser llawn, costau teithio a hyfforddiant, Bydd Roath Park Golden Friendship Club yn derbyn grant bychan gwerth £900 i dalu am wibdeithiau a siaradwyr eu rhaglen weithgareddau cymdeithasol i'r henoed.

Aelodau Pwyllgor Cymru'r Gronfa Genedlaethol yw Elisabeth Watkins (Cadeirydd), Jeff Carroll a Rhiannon Bevan ynghyd â thri aelod wedi eu cyfethol, sef Margaret Davies, Aled Siôn a Dr Glyn Williams. Mae rhestr lawn o grantiau'r gronfa i'w gweld ar y rhyngrwyd o dan y cyfeiriad www.community-fund.org Os hoffech gael rhagor o wybodaeth neu os ydych yn dymuno gwneud cais am help ariannol ar gyfer unrhyw fudiad elusennol, llesiannol neu ddyngarol ffoniwch y llinell ateb Gymraeg: 0845 727 3273

## Anrhydeddau'r Orsedd

Mae'n bleser gan Y Dinesydd longyfarch y canlynol sydd ar fin cael derbyniad i Urddau Gorsedd y Beirdd eleni. Dyrchefir Iona Jones, Llandaf, yn Ofydd er Anrhydedd yn sgil ei llwyddiant yng Nghystadleuaeth y Rhuban Glas yn Eisteddfod Llanelli a'r Cylch y llynedd. Caiff Mandy Louise James, Caerdydd, yr un anrhydedd am ennill Gwobr Llwyd o'r Bryn, eto yn Eisteddfod Llanelli. Bydd Gareth Davies, yntau, yn derbyn Urdd Ofydd er Anrhydedd am ei gyfraniad sylweddol i fyd chwaraeon y genedl ac am ei waith yn llunio polisi iaith Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mewn cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth maith ac arbennig i'r Orsedd a'r Eisteddfod fe ddyrchefir Rhiannon Alun Evans, Yr Eglwys Newydd, yn Dderwydd er Anrhydedd. Bydd John Owen Thomas, A.C. yn derbyn y Wisg Wen hefyd am ei gyfraniad brwdfrydig i'r ymgyrch i Gymreigio Caerdydd a'i gwneud hi'n fwy teilwng o'i statws fel prifddinas Cymru.

Cynhelir Seremoni'r Urddo fore Llun, 6 Awst, yn Eisteddfod Sir Ddinbych a'r Cyffiniau, 2001.

## Mynd a dod ym myd gwleidyddiaeth

Etholwyd Kevin Brennan yn aelod seneddol Gorllewin Caerdydd i olynu Rhodri Morgan. Bu'n gynghorydd ar gyngor y ddinas ac mae wedi dysgu siarad Cymraeg yn bur dda erbyn hyn.

Ac mae Alun Michael, a adawodd y Cynulliad dan gwmwl wedi canfod gwenau haul unwaith eto gan ei fod wedi ei benodi'n weinidog dros faterion gwledig. Llongyfarchion i'r ddau ohonyn nhw.

## Cofio am Brinley Jenkins, addysgwr ac actor

Mae'r Dinesydd yn cydymdeimlo'n ddwys â theulu'r diweddar Brinley Jenkins a fu farw'n ddiweddar mewn gwesty yn Brisbane, Awstralia. Mae un o'i ddau fab, sef Huw, yn gweithio yn Brisbane, ac yr oedd ef a'i gymar Mair (un o blant Cwmafan) wedi mynd yno am seibiant ac i weld Huw a'i wraig a'i blant.

Un o Gwmafan oedd Brinley hefyd ac roedd yn yr un dosbarth yn yr ysgol â Richard Burton. Wedi cyfnod yn y llynges ac mewn coleg addysg bu'n athro yn Luton ac yna yn Abercregan, Cwmafan. Yna aeth ar staff y BBC yn actor proffesiynol cyn mynd yn drefnydd drama yn Sir Frycheiniog. Aeth oddi yno i ddarlithio i'r adran ddrama yng Ngholeg Addysg Cyncoed, Caerdydd cyn mynd yn bennaeth yr Adran Ddrama yng Ngholeg Addysg Caerleon. Drwy'r adeg hon roedd galw mawr am ei wasanaeth ar radio sain ac ar y teledu. Yn ystod ei fywyd fel actor chwaraeodd lu o wahanol rannau a chymeriadau a bu'n amlwg mewn cyfresi fel Pobol y Cwm. Mae ei ail fab, Alun, wedi ei ddilyn fel actor proffesiynol. Ar ôl ymddeol o'i waith cyflog roedd mor brysur ag erioed ac ymddangosodd ar y teledu'n gymharol ddiweddar. Bydd y golled ar ei ôl yn fawr.

## Dymuniadau da i Hannah

Crybwyllwyd yn rhifyn Mehefin o'r Dinesydd y byddai Hannah Thomas yn dechrau yn ei swydd newydd yn Bennaeth y wasg gyda chwmni S4C yn gynnar ym mis Gorffennaf. Merch o Lanisien yw hi er bod ei rhieni'n dod yn wreiddiol o Orllewin Morgannwg; Wyn, ei thad, o bentref Pengelli (ger Gorseinon) a Beryl, ei mam, o Gwmafan. Maen nhw wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd ers blynyddoedd bellach.



*Hannah Thomas*

Wedi graddio yng Ngholeg y Brifysgol, Abertawe, dilynodd gwrs o hyfforddiant mewn sgiliau cysylltiadau cyhoeddus yng Nghanolfan Astudiaethau Newyddiadurol Caerdydd ac ennill ei swydd gyntaf gyda Chwmni Golley Slater yma yn y ddinas. Yno bu'n ffodus i gael profiad gwerthfawr o gydweithio gyda llawer iawn o fusnesau amrywiol eu natur. Yn ddiweddarach cafodd gyfle i weithio gyda'r byd teledu wedi iddi symud at gwmni Cambrensis. Ers tro bu'n gweithio gydag un o sefydliadau'r llywodraeth, sef CADW ac yn sgil llwyddiant y corff hwnnw i ennill Statws Treftadaeth y Byd i hen waith haearn Blaenafon yn ddiweddar cafodd Hannah brofiad cyffrous o ddelio â llu o ymholiadau am wybodaeth o bob rhan o'r byd.

Mae hi'n ymwybodol iawn o rôl allweddol S4C ym mywyd ieithyddol ac economaidd Cymru ac yn sylweddoli bod datblygiadau technolegol mawr ar fin digwydd yn y byd teledu. Am y rhesymau hyn mae hi'n edrych ymlaen yn fawr at ymuno â'r gwaith. Byddwn yn sicr o glywed mwy ganddi ac amdani yn y dyfodol. Pob hwyl iddi.

## Llongyfarchiadau

- i Gareth a Caren Phillips Aberystwyth ar enedigaeth eu cyntaf anedig, Iwan, ar 9 Mehefin, ŵyr i Ifor a Janet Phillips, Caerdydd a chefnder i Ioan, Edward a Steffan, Radyr.
- i Gordon a Sioned Harold, Rhiwbeina ar enedigaeth eu plentyn, Keith William Harold ar y cyntaf o Fehefin yn Ysbyty'r Mynydd Bychan.
- i James Barr gynt o Riwbeina a mab i Dr Ben a Sara Barr ar ei briodas â Siân Griffiths o Gilgwri yng nghapel Bryn Berian yn y Preselau ar 2 Mehefin. Bu'r neithior yng ngwesty'r Cliff, Gwbert a threuliwyd y mis mêl yng Ngwlad Thai cyn mynd i deithio'r byd am bum mis. Byddan nhw'n dychwelyd i fyw a gweithio yng Nghaerdydd. Dymuniadau gorau hefyd i Sybil chwaer James a'i gŵr Jim sy'n mynd i fyw a gweithio yn Washington D.C. am ddwy neu dair blynedd.
- i rai o ddisgyblion Ysgol Plasmawr ar eu llwyddiannau diweddar:
  - i David Evans o flwyddyn 8 sy'n chwarae i dîm criced y Sir
  - Darren John o flwyddyn 11 Pencampwr Jiwdo Cymru ac a ddaeth yn 5ed ym Mhrydain, ac i'w frawd Matthew John blwyddyn 8 a ddaeth yn 3ydd ym Mhencampwriaeth Jiwdo Cymru
  - Robert Lambey a ddaeth yn 3ydd yn Ne Orllewin Prydain ym Mhencampwriaeth Dringo Prydain
  - Gwennan Harries sydd wedi cael ei dewis i garfan pêl-droed Cymru.

## Gwobr i Athro Hanes

Llongyfarchion i'r Athro Michael Burleigh o Goleg y Brifysgol, Caerdydd ar ennill gwobr gwerth £30,000 am ei gyfrol The Third Reich mewn cystadleuaeth am y llyfr ffeithiol gorau yn ystod y flwyddyn. Mae wedi bod yn Athro Ymchwil yn y coleg er 1995.

## Cerddorion Ifanc a Dawnus



Llongyfarchion i un ar hugain o gerddorion Cerddorfa Ieuenctid Caerdydd a'r Fro ar gael eu dewis i ganu yng Ngherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru. Yn ystod yr haf bydd y gerddorfa yn perfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych ac yn y Neuadd Gyngerdd Genedlaethol yn Nulyn yn ogystal ag yn Neuadd Gyngerdd Dinas Belfast.

## Actor glandeg

Mae Ioan Gruffydd yn actio mewn ffilm sydd newydd ei rhyddhau, sef Another Life. Mae'n llofrudd ynddi hi. Ar hyn o bryd mae'n ffilmio mewn drama gyfres The Forsyte Saga i ITV. Mae'n cael ei gadw'n brysur iawn ac yn ôl un pôl piniwn, dim ond dau ddyn ym myd y ffilm sy'n fwy glandeg nag ef.

## Croeso i Bryn a'i deulu

Yn ddiweddar penderfynodd Bryn Terfel bod angen cartref arno ef a'i deulu yng Nghaerdydd yn ogystal ag yn y Bontnewydd a Llundain ac felly mae newydd brynu fflat foethus yng Nghofadail Landmark Place ar Ffordd Churchill, yng nghanol y ddinas. Felly mae Bryn yn un ohonom ni. Croeso cynnes i ti a dy deulu Bryn!

## Darlun gan A S Lowry

Mae darlun o waith A S Lowry sef Six Bells Abertillery wedi ei roi ar fenthyg hir dymor i'r Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays ac fe'i dadorchuddiwyd gan Jenny Randerson, Gweinidog Diwylliant ac Iaith y Cynulliad mewn seremoni yn yr Amgueddfa yn ddiweddar.

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

### Prysurdeb Eglwys y Crwys

BYDDWCH YN DARLLEN mewn man arall y byddwn yn ffarwelio â'n gweinidog eleni ar ôl chwarter canrif o wasanaeth. Ffarweliwn ag urddas cyn dechrau ar bennod newydd.

Derbyniodd y gweinidog naw o bobl ifanc yn gyflawn aelodau o'r eglwys ddydd Sul 1af Gorffennaf. Cynrychiolant nifer o deuluoedd a fu'n gefn i'r Achos dros nifer dda o flynyddoedd. Derbyniodd y canlynol eu cymun cyntaf trwy law y gweinidog ac fe'u croesawyd yn swyddogol gan yr ysgrifennydd, Mr Bob Roberts: Tomos Baker, Heledd Espley, Bethan a Rhiannon Evans, Lois Richards, Elin a Gwenno Rowlands, Selyf Shapey a Nia Peris.

Dydd Sadwrn, Mehefin 30ain aeth dros ddeg ar hugain o aelodau y Gymdeithas ar wibdaith i fwynhau rhyfeddodau Gerddi Botaneg Cymru yn Llanarthne, Mae'n fwriad gan Mr Aled Evans, ar ran y Gymdeithas Ddrama, drefnu i arwain hirdaith Awst i wledydd Llychlyn. Cwmni Seren Arian o Gaernarfon fydd yn hyrwyddo'r daith hon a dymunwn yn dda iddyn nhw ymlaen llaw.

Nid yr oedolion yn unig fydd yn teithio yn ystod yr haf eleni. Ddiwedd Gorffennaf bydd nifer o ieuenctid yr eglwys a rhai o eglwysi eraill yn ymweld â thalaith New Jersey yn y Taleithiau Unedig. Rhaid cydnabod ein dyled i Mr Alun Roberts am arwain taith Cyfeillion Rhyngwladol unwaith yn rhagor. Diolch yn fawr, Alun.

Cafodd y Grŵp Merched eu te Mefus blynyddol yng nghartref Mr John Lloyd a'r teulu brynhawn Sadwrn Gorffennaf 7fed. Bydd yr elw yn cael ei gyflwyno i Gyfeillion Ysbyty Felindre. Mrs Carol Williams a lywiodd weithgareddau'r dydd ac fel arwydd o werthfawrogiad o'i llafur diflino dros y blynyddoedd cyflwynwyd iddi ddarn o emwaith Cymreig.


Ddechrau Awst bydd aelodau'r Gymdeithas Ddrama yn cystadlu am dlws drama un act ein gŵyl Genedlaethol. Teitl y ddrama yw Oni Chlywch chi'r Miwsig? Gan David Compton. Cynhyrchiad etsan Evans a chyfieithiad Mrs Rae Evans. Cyflwynir hefyd ddrama hir Cofio Cyfeillion, trosiad Degwel Owen Owen o ddrama Alan Ayckbourn, Absent Friends. sydd â gofal y cynhyrchiad yma.

Mr George Owen sydd â gofal y cynhyrchiad hwn.

Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf bedyddiwyd nifer o fabanod y mae eu teuluoedd yn gysylltiedig â'r eglwys sef Ella Charles, merch Peter ac Eleri McAuliffe; Llewelyn, mab Deian a Helen Humphreys; Rebecca Elizabeth, merch David ac Elin Pinnell; Lewis Alexander Lloyd, mab Andrew a Lisa Turton, Carys, merch Julian a Rhiannon Bill a Tomos Lloyd, mab Aled a Menna Williams

### Ffarwelio a chroesawu

Ar y diwrnod olaf o fis Awst eleni bydd Eglwys y Crwys yn dathlu carreg filltir hynod iawn yn ei hanes. Dyna pryd y bydd y Parch W. I. Cynwil Williams yn ymddeol fel bugail a gweinidog arni wedi chwarter canrif o wasanaeth.



*Y Parch Cynwil Williams*

Ar 14 Gorffennaf cynhelir Cyfarfod Ffarwelio yn y capel am 2 o'r gloch a pharti yn dilyn yn y Festri a'r theatr. Y mae Cynwil yn adnabyddus trwy Gymru gyfan, nid yn unig fel gweinidog yr efengyl ond hefyd fel pregethwr grymus a threiddgar, awdur, diwinydd a chyfaill i lawer iawn o bobl, Nid oes un ardal yn y wlad lle na fu'n pregethu ynddi, yn aml mewn cyrddau mawr, ac mae ei adnabyddiaeth o bobl a'u cefndir yng Nghymru a thu hwnt yn rhyfeddol.

### O Ddinbych i Gaerdydd

Daeth i Eglwys Heol y Crwys o'r Capel Mawr yn Ninbych ar ddechrau'r flwyddyn 1976 pryd yr ymunodd Eglwys Pembroke Terrace â hi i ffurfio un ofalaeth, ac yn Hydref 1988 arweiniodd ei gynulleidfa niferus i'w chartref newydd yn 77 Heol Richmond. Gwelodd newidiadau mawr iawn yn y bywyd Cymreig yn y brifddinas dros gyfnod ei weinidogaeth ac er iddo gael ei wanhau'n achlysurol gan anhwylder corfforol parhaodd i gyflawni ei genhadaeth gyda'r arddeliad a'r dyfalbarhad sy'n nodweddiadol ohono. Er iddo fyw cyhyd yn y brifddinas ni fyn wadu ei wreiddiau gwledig yng Nghwrt y Cadno, Cwm Cothi, sir Gaerfyrddin ac mae o hyd yn barod i gydnabod y fagwraeth grefyddol gref a gafodd yn y fro honno. Cododd i'r brig yn llysoedd ei enwad. Fe'i etholwyd yn Llywydd Sasiwn y De (1997-8) a Llywydd y Gymanfa Gyffredinol (1998-9) a thraddododd Ddarlith Davies ar Williams Pantycelyn yn y Gymanfa honno yn 1985. Cyhoeddodd esboniad ar Broffwydoliaeth Eseciel ar gyfer yr Ysgolion Sul (1992) ac yn 1999 ymddangosodd ei anerchiad ymadawol cyfoethog o gadair y Gymanfa dan y teitl; Mlaen i'r Mileniwm, sef arweiniad treiddgar i'r groesffordd heriol yn hanes y gwareiddiad Cristnogol. Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych eleni cyhoeddir cyfrol ganddo yn y gyfres boblogaidd Bro a Bywyd (Cyhoeddiadau Barddas) ar Gwilym R. Jones, y bardd, y golygydd a'r cenedlaetholwr amlwg yr oedd yr awdur yn ei adnabod yn dda pan oedd yn weinidog yn Ninbych. Cyflwynwn ein dymuniadau gorau i'r Parch Cynwil Williams a'i briod Carol ar ei ymddeoliad gan obeithio y caiff iechyd a dedwyddwch am lawer o flynyddoedd i ddod.

### Gweinidog newydd

I olynu'r Parch Cynwil Williams yn Eglwys y Crwys daw'r Parch Glyn Tudwal Jones, gweinidog Tŵr-gwyn, Bangor ers ugain mlynedd.




*Y Parch Glyn Tudwal Jones*

Brodor o Hen Golwyn ydyw ac wedi iddo raddio ym Mangor a Chaer-grawnt gweinidogaethodd yn Nyffryn Clwyd a Phenbedw cyn symud i Fangor. Y mae yntau hefyd yn adnabyddus fel gweinidog, ysgolhaig ac arweinydd amlwg yng nghyfundeb y Presbyteriaid. Cawn gyfle eto ar achlysur ei sefydlu ar 13 Hydref i'w groesawu ef a'i briod Delyth i'n plith yn y brifddinas ac i gofnodi hynny yn Y Dinesydd. Dymunwn bob dedwyddwch i'r ddau ohonynt wedi iddynt ymsefydlu yn y brifddinas.

**Dr. John Gwynfor Jones**

## Newyddion o'r Tabernacl

Testun llawenydd oedd clywed am lwyddiant tri o aelodau'r capel yn ddiweddar ym myd addysg. Penodwyd Carys Burston yn Bennaeth yr Adran Ddrama yn Ysgol Glantaf, Lisa Thomas yn athrawes yn Ysgol Gymraeg Cynwyd Sant ym Maesteg ac Angharad Lewis i swydd barhaol mewn ysgol i blant ag anghenion addysgol arbennig yn Nhrelai. Bu'n rhaid ffarwelio â Llinos Jones wedi iddi dderbyn swydd rheolwraig Banc Barclays yn Aberystwyth.



Mae rhai o bobl ifanc yr eglwys wedi dangos eu doniau wrth ganu organ y Tabernacl ac oherwydd hyn yn dod â dimensiwn newydd, gwerthfawr i'r gwasanaethau. Y rhai sydd wrthi'n cael gwersi cyson gan Marc Jon Williams yw Alys Reed, Marged Jones ac Owain Williams.

Daeth gweithgareddau'r Gymdeithas Nos Fawrth i ben wedi blwyddyn lwyddiannus arall . Cydnabuwyd cyfraniad gwerthfawr Wyn Morris y llywydd, Beryl Eurig a Jean Evans yr ysgrifenyddesau a Viv Evans y trysorydd. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn nesa o dan arweiniad Margaret Hemmings fel llywydd a Megan Morris fel ysgrifenyddes.

Dathlwyd priodas Lowri Mererid, merch Gwyn ac Eirlys Jones, a Paul Burleton yn Ddiweddar. Mae'r ddau ar hyn o bryd yn gweithio yn Siapan. Llongyfarchwn Alun ac Alwyn Kemp ar ddathlu deugain mlynedd o briodas, eu priodas ruddem.

Yn olaf, rhaid cyfeirio at ben-blwydd arbennig a ddathlwyd ym mis Ebrill, sef Eglwys y Tabernacl yn 180 oed!

## Hanesion o Gapel Minny Street

Ganol mis Mawrth daeth y newydd trist am farw dau o'n haelodau sef Mr. John Owen Huws (Llandaf) a Miss Beti Llewelyn (Yr Eglwys Newydd). Cydymdeimlwn yn ddiffuant â theuluoedd a chyfeilllion y ddau.


Llongyfarchiadau i dri o'n teuluoedd ar enedigaeth meibion bach: Daniel yn fab i Hawys a Phillip Thomas (Rhiwbina), Aled Huw yn fab i Nia a Rhys Evans (Parc y Rhath) ac Iestyn Siôn yn fab i Rhian a Neil Fenn (Penylan).

Dymunwn yn dda i ddau bâr ifanc sydd wedi priodi yn ystod y misoedd diwethaf: Rachel Garside a Richard James a briodwyd yn Minny Street ar 7 Ebrill a Geraint Warrington a Dawn Cope a briodwyd yn Stourbridge ar 5 Mai.



Cafwyd nosweithiau hwylus yn Theatr y Crwys ganol Mai pan ddaeth Cymdeithas ddrama Minny Street a Theatr Crwys ynghyd i gyflwyno pedair drama fer. Llongyfarchiadau i bawb a fu wrthi'n ddyfal - ar y llwyfan a thu nôl i'r llenni.

Cafwyd Gwasanaeth arbennig dan nawdd yr ysgol Sul fore Sul, 20 Mai ar thema Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd. Bu nifer o'r plant a'r bobl ifanc yn cyflwyno amrywiol eitemau ynghyd â chyflwyno'r neges ei hun mewn pump iaith a chafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan Jane Harries o'r NSPCC.



Daeth eglwysi Annibynnol Bethel (Penarth), Ebeneser, Minny Street a Mynydd Seion (Casnewydd) at ei gilydd yn Minny Street ar Sul y Blodau ac ymuno yng Nghymanfa Ganu Annibynwyr Caerdydd a'r Cylch dan arweinyddiaeth Mr. Alun Tregelles Williams. Diolch i bawb a fu'n ddyfal hyfforddi'r plant a'r oedolion. Hyfrydwch oedd cael cwmni Carys Davies yn oedfa'r bore; o fis Medi ymlaen bydd Carys yn arwain gweithgareddau'r plant a'r bobl ifanc yn y pedair eglwys uchod ynghyd â'r Tabernacl, Y Barri.

## Nodion o gapel Bethel, Rhiwbina

Cydymdeimlir â Mrs. Monita Jones ar farwolaeth ei gwr Alan a gyda Miss Gwenllian Chance ar farwolaeth ei mam yng Nglyn Corrwg.

Derbyniwyd tri o bobl ifanc yr eglwys yn gyflawn aelodau, sef Angharad Davies, Aled Hill a Nerys Jones. Cyflwynodd y Gweinidog, Y Parch. T.Evan Morgan gopïau o Caneuon Ffydd iddyn nhw.

Daeth bron i hanner cant o ddisgyblion chwech a saith oed Ysgol Melin Gruffydd i Fethel i wrando ar y gweinidog yn disgrifio mewn modd hynod o ddifyr beth yw gweithgareddau'r capel. Diolch i Mrs. Gwenda Francis am drefnu'r ymweliad.

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF.**

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

**Geraint B. Llewelyn**

LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)

**291 Ffordd Cyncoed, Cyncoed, Caerdydd, CF23 6PA**

**Ffôn: (029) 20228223 Ffacs: (029) 20761309**

Aelod o DBS Rheolaeth Ariannol CCC

a oruchwilir gan Awdurdod Buddsoddi Personol

**TRYDANWR**

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*Prisiau Rhesymol*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 559664**

**Cylch Meithrin Gwaelod-y-Garth**

Mae angen Arweinydd a/neu Cynorthwydd ar gyfer Medi 2001.

Am rhagor o fanylion cysylltwch â:

Ali Torkington ar 02920 811147 neu


Liz Miller-Royal 02920 337371

## Gŵyl Gorawl Llandaf

Mae Gŵyl Gorawl Llandaf wedi bod yn ddigwyddiad blynyddol i'r Eglwys yng Nghymru ers blynyddoedd. Dyma'r unig gyfle i eglwyswyr a Chymry Cymraeg Caerdydd ddod at ei gilydd. Eleni penderfynodd Esgob Barry Morgan gael yr ŵyl ar y Sul a'i gwneud yn rhan bwysig o weithgareddau'r gadeirlan. Ar nos Sul 17 Mehefin roedd y gadeirlan yn gyffyrddus lawn ar gyfer yr ŵyl boblogaidd hon, gyda phobl yn dod yno o nifer o eglwysi o gwmpas. Yr esgob oedd yn arwain y gwasanaeth a dywedodd ei fod yn dod ar draws Cymry Cymraeg yn aml mewn eglwysi ar hyd a lled ei esgobaeth a'i fod yn awyddus i wneud popeth i'w cadw mewn cysylltiad â'i gilydd. Pregethwyd yn rymus gan Y Parchedig Meurig Llwyd o Eglwys Dewi Sant. Yn ystod y noson trwyddedodd Y Parchedig Helen O'Shea, a fu'n gaplan yn Ysbyty Treforys, i wasanaethu a chynorthwyo'r ficer, Y Parchedig Enid Morgan, ym mhlwyf Maesteg. Fel nifer o offeiriaid sy'n dod i Gymru o'r tu allan, mae Helen yn dysgu'r Gymraeg. Mae'r Dinesydd yn dymuno pob hwyl iddi yn ei maes newydd.

## Cyflwyno Carys

Llawenydd mawr yw cyhoeddi bod Carys Davies wedi ei hapwyntio yn Weithiwr Ieuenctid i wasanaethu ymhlith plant a phobl ifanc Eglwysi Minny Street ac Ebeneser, Caerdydd; Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri; Bethel, Penarth a Mynydd Seion, Casnewydd. Mawr yw'n braint o gael croesawu merch ifanc fywiog, egnïol a llawn brwdfrydedd i'n plith. Bydd yn cychwyn ar ei gwaith ym mis Medi.



*Carys Davies*

Ar gais y Pwyllgor a fu ynglyn â threfnu'r apwyntiad hwn, dyma gofnod o sgwrs a ymddangosodd yn Y Ddolen, sef bwletin misol Eglwys Annibynnol Gymraeg Y Barri, rhwng Y Parchg. Beti-Wyn James â Carys Davies:

*Beti-Wyn: Ym mha Eglwys yr ydych yn aelod?*
*Carys:* Y Tabernacl, Ynysybwl - yr Eglwys lle'm magwyd.

*B.W.: Beth oedd yn eich denu i wneud cais am y swydd o Weithiwr Ieuenctid yn Eglwysi Caerdydd, Y Barri, Penarth a Chasnewydd?*
*Carys:* Credaf fy mod wedi fy ngalw i'r gwaith hwn, ac wedi fy arwain i wneud cais am y swydd hon. Mae gen i wir galon i weithio gyda phobl ifanc, i'r fath raddau fel fy mod wedi cytuno mynd i wersyll ieuenctid yr hâf diwethaf! Wrth ddod i'm 'nabod, fe gewch weld fy mod yn hoff IAWN o gysuron bywyd h.y. cawodydd, dillad glân a.y.y.b., ond yn y gwersyll fe gysgais mewn pabell, a'r unig gawod a gefais oedd cawodydd glaw! Ar hyn o bryd, rwyf yn astudio am radd mewn Seicoleg, gyda'r bwriad o wneud M.A. mewn gwaith Ieuenctid a Chynghori. Nid oeddwn yn bwriadu chwilio am swydd ar hyn o bryd, ond pan ddaeth y swydd hon i'm clyw, credais yn wir fy mod yn cael fy arwain i geisio amdani.

*B.W.: Pa brofiad sydd gennych o weithio gyda Christnogion ifanc?*
*Carys:* Yr wyf wedi bod yn weithgar iawn dros y dwy mlynedd diwethaf. Rwyf yn un o ddau (gydag Alun Davies, Gweithiwr Ieuenctid Pontypridd Christian Concern) sy'n paratoi a chynnal Astudiaethau Beiblaidd i Gristnogion ifanc rhwng 11 a 16 oed.

Bûm yn helpu yng nghlwb ieuenctid un o'r elgwysi lleol am gyfnod, ac rwyf wedi adeiladu perthynas gref gydag ychydig o'r merched oedd yn mynychu'r clwb yno.

Haf diwethaf, roeddwn yn aelod o dîm Beach Mission yn Saundersfoot. Buom yn cynnal pob math o weithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd am wythnos gyfan.

Rydw i hefyd yn rhan o dîm trefnu Pontypridd Christian Young Adults i bobl ifanc 16 i 30 oed. Rydym yn cwrdd pob nos Sadwrn i rannu astudiaethau, neu jyst sgwrsio a mwynhau cwmni ein gilydd.

*B.W.: Beth yw eich gweledigaeth yn y swydd hon?*
*Carys:* Fy ngweledigaeth? Yr wyf yn credu y dylai pob person ifanc glywed gwirionedd yr Efengyl. Fe hoffwn weld pobl ifanc yn mynd yn bananas dros Dduw! Mae angen meithrin pobl ifanc yn Y Ffydd, drwy gynnal grwpiau gweddi ac astudiaeth, a thrwy fod yno yn gymorth cyffredinol. Gobeithiaf feithrin talentau'r ifanc, a'u hargyhoeddi bod y bywyd Cristnogol yn bell o fod yn boring!

*B.W.: Beth yw eich diddordebau y tu allan i waith yr Eglwys?*
*Carys:* Does gen i fawr o amser hamdden! Dwi ar hyn o bryd yn dysgu chwarae'r gitâr, ac mae hyn wedi bod yn fodd i gyflwyno addoliad mewn modd gwahanol yn ogystal â helpu i mi ymlacio!

Dwi'n hoff iawn o siarad! Pan oeddwn yn ieuengach, roedd y biliau ffôn yn ofnadwy o uchel, ond bellach, a minnau yn gallu gyrru car, mae'n well o lawer gen i ymweld. Lle nad yw hynny'n bosibl, mae e-bost yn handi iawn!

Dwi'n hoff o ddarllen, yn enwedig barddoniaeth Gymraeg gyfoes. Mae'n rhaid dweud fy mod yn ffan mawr o waith Gerallt Lloyd Owen, ac roeddwn wrth fy modd o dderbyn englyn personol oddi wrtho yn anrheg pen-blwydd yn ddeunaw.

O ie! Diddordeb arall ... bwyta SIOCLED!

Diolch i Carys am ei hymatebion gonest a diffuant i'n cwestiynau. Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i'w chroesawu i'n plith ym mis Medi.

## Amgueddfa Sain Ffagan dan sang

Yn ystod y Gŵyl Banc ar 7 Mai gwelwyd bron i 20,000 o ymwelwyr yn Amgueddfa Sain Ffagan a throwyd miloedd i ffwrdd gan fod y safle mor llawn. Ers diddymu tâl mynediad i Amgueddfeydd ac Orielau Cymru mae cynnydd aruthrol wedi bod yn y nifer o ymwelwyr â'r gwahanol safleoedd. Yn Ebrill 2000 daeth 33,803 o ymwelwyr i Sain ffagan ond yn Ebrill 2001 ymwelodd 83,184 â Sain Ffagan.


**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm

cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

# Llwyddiant Ysgol Iolo Morganwg

Llwyddodd disgyblion Ysgol Iolo Morganwg i gasglu bron £1000 yn ddiweddar wrth sgipio. Trefnwyd y diwrnod gan Mrs Jayne Williams, un o'r rhieni, fel un o weithgareddau addysg gorfforol yr ysgol.

Sefydliad Prydeinig y Galon oedd yn trefnu'r offer a Brigâd Sant Ioan wrth law i gynnig cymorth cyntaf pe bai angen. Cafwyd cyfle hefyd i bob disgybl wrando ar neges am gadw'n iach ac yn heini a gofalu am eu cyrff.

Casglodd wyth plentyn dros £50 yr un gan ennill sach gefn iddyn nhw eu hunain am wneud. Fe'u gwelir hwy yn y llun uchod gyda Mrs Williams a'r rhieni oedd yn cynorthwyo ar y diwrnod - Caryl Williams, Judith Jerwood a Morfudd Meredith - a Mrs Glenda Meakin, oedd yn derbyn y siec ar ran Sefydliad y galon. Diwrnod da o waith i bawb ac mae'r Dinesydd yn eu llongyfarch yn galonnog.



*Dathlu llwyddiant - rhai o ddisgyblion Ysgol Iolo Morganwg*

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

### Lled-Agor y Drws

Roedd llawr 3 yn Neuadd Dewi Sant yn llawn Cymry Cymraeg ddydd Sadwrn 23 Mehefin ar gyfer Agor y Drws. Roedd rhai yn cynnig cyrsiau Cymraeg, eraill ffyrdd i wella'ch Cymraeg ac eraill yn rhedeg cymdeithasau a chlybiau dan ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Yn ogystal â hyn, roedd adloniant o'r llwyfan: sioe i blant, côr plant, côr oedolion, dawnswyr gwerin. Roedd pawb oedd yn cyfri ym myd Cymraeg Caerdydd yno! Doedd dim ond un broblem: ar gyfer dysgwyr y paratowyd y wledd yno, ond doedd dim hanner digon ohonyn nhw!

Rwy'n sicr ei fod yn llesol iawn i'r rhai a ddaeth; siaradais i â dyn o'r Barri, oedd yn honni (mewn Cymraeg gweddol dda) ei fod yn rhy hen i ddysgu Cymraeg! Es i â fe i drafod gyda thiwtor o'r Barri pa un o'r cyrsiau yno byddai'n ei siwtio fe orau. Roedd pâr yno oedd wedi astudio blwyddyn o Gymraeg ddwy flynedd yn ôl; roedden nhw eisiau mynd ymlaen y flwyddyn nesaf ond roedd rhaid adolygu dros yr haf - roedd taflennu Cyrsiau Preswyl dros yr haf ar gael gan Fwrdd yr Iaith. Roedd dynes wedi dechrau dysgu Cymraeg ond roedd dosbarth unwaith yr wythnos yn rhy araf iddi hi - roedd cyfle iddi ddysgu am gyrsiau Wlpan y Brifysgol. Roedd dyn oedd ar fin symud i Virginia, UDA, yno, ac yn chwilio am siaradwyr Cymraeg yno - ychydig bach yn anoddach, ond cymerais i ei gyfeiriad e-bost ac rwy'n siŵr o nabod rhywun sy'n nabod rhywun. Os yw'r byd yn fach, wel, mae byd y Cymry Cymraeg yn ficrosgopig! Os ydych chi eisiau chwarae rygbi trwy'r Gymraeg (ie, merched hefyd!), mae 'na glwb, os ydych chi eisiau anfon eich plant i feithrinfa neu i ysgol Gymraeg, roedd gwybodaeth i'w chael. Clwb cinio? - dim problem. Capel Cymraeg? - roedd 'na un yno.

Dyma'r tro cynta inni gael y fath ffair ers tua deng mlynedd, ac mae'n amlwg bod gwersi i'r trefnwyr eu dysgu - byddai poster (neu dri) lliwgar tu allan wedi denu llawer mwy i mewn, er enghraifft, ac efallai nad oedd diwrnod crasboeth o Fehefin cystal â dechrau mis Medi pan fydd y meddwl yn troi at ddosbarthiadau nos. Ond roedd hi'n ddechrau da, a gobeithio y bydd cyfle i gynnal un arall yn 2002.

### Dim ond fory tan y ffair!

Cynhelir ffair haf ar dir ysgol Glantaf rhwng 12.00 o'r gloch a 3.00 o'r gloch dydd Sadwrn 14 Gorffennaf. Codir tâl o 50c am fynediad i oedolion ond ni chodir tâl ar blant. "Diflas ffair heb arian" meddai'r hen air ac mae'r ysgol yn gobeithio hel llawer iawn o arian i'w chronfa, felly dewch i'w chefnogi yn y fenter flynyddol hon.

### Ymweld â bedd Carnhuanawc



Cynhaliodd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina ei gwibdaith ganol Mehefin gan ymweld â'r Fenni, Crucywel, Tre-tŵr a Chwm-du a bedd Carnhuanawc. Fe a gychwynnodd ysgol Gymraeg gyntaf y byd. Cafwyd braslun o hanes bywyd Carnhuanawc gan Iwan Jones, Cadeirydd y Gymdeithas.

*Nodyn:* Roedd cyd-olygydd *Y Dinesydd* am y mis hwn yn digwydd bod yn trafod Carnhuanawc gyda dosbarth nos ac aeth i fynwent Cwm-du i gael cip ar y bedd a llun ohono. Carreg wastad yw ei fedd ac roedd y geiriau wedi mynd yn aneglur iawn gyda'r blynyddoedd. Cafodd gwmni gwraig oedd yn gyfrifol am dacluso'r eglwys a'r fynwent, Mrs Isaac a bu'n dweud wrthi pam yr oedd yn ceisio cael llun o'r bedd ac yn adrodd peth o'i stori. Cafodd ei chyflyru gan hyn a phan aeth yno gyda'i ddosbarth nos yr oedd hi wedi bod wrthi'n sgwrio'r maen yn lân ac roedd y geiriau'n glir unwaith yn rhagor, diolch i Mrs Isaac.

### Prifysgol Caerdydd yn anrhydeddu Shirley Bassey

Bydd Shirley Bassey y gantores enwog o Drebute yn un o ddeg a anrhydeddir gan Brifysgol Caerdydd yn y seremoni raddio flynyddol yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf pan gaiff ei gwneud yn aelod er anrhydedd o'r Brifysgol. Llongyfarchiadau iddi hithau.

### Llywydd Newydd UCAC

Llywydd newydd UCAC fydd Ian ap Dewi, Llangrannog a fu ar un adeg yn gweithio i'r Urdd fel warden Canolfan yr Urdd yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau iddo ef ar ei ethol yn llywydd yr Undeb.

# Plasmawr

### Ymwelydd arbennig

DAETH MYRDDIN AP DAFYDD yn gynnar ar fore dydd Iau 7 Mehefin i ymweld â Blwyddyn 7.

Mae Myrddin Ap Dafydd yn fardd enwog iawn yng Nghymru; ef oedd Bardd Plant Cymru 2000. Dechreuodd siarad am sut mae ef yn mynd ati i ysgrifennu cerdd a sut mae pawb yn hoff o eiriau sy'n odli. Ar ôl y drafodaeth, darllenodd ychydig o'i gerddi doniol i ni. Roedd pawb yn eu hoffi.

Ar ôl egwyl aethom yn ôl i'r ystafell i ddechrau creu cerdd fel dosbarth. Gofynnodd i ni am ba chwaraeon yr hoffen ni gyfansoddi cerdd. Ar ôl llawer o awgrymiadau daethom i'r penderfyniad i gyfansoddi cerdd am bêl-fas. Roedd Myrddin Ap Dafydd yn hoff o'r syniad hwn oherwydd bod pêl-fas yn boblogaidd yng Nghaerdydd.

Fe ddechreuon ni gan restru pethau yn ymwneud â phêl-fas, er enghraifft, y bêl, y bat a'r maswyr. Ar ôl gwneud hyn fe wnaethom ni lunio disgrifiadau o'r gwahanol bethau. Dechreuodd Myrddin Ap Dafydd roi'r geiriau mewn cerdd ddifyr. Roedd yn syndod i mi pa mor hawdd y gallai wneud hyn. Gorffennodd y gerdd ac mae hi ar y wal yn yr ysgol yn dystiolaeth o'r ymweliad. Diwrnod i'w gofio yn wir i ddisgyblion blwyddyn 7! Steffan Ellis Jones

### Perfformio yn America



Ymhen ychydig wythnosau bydd criw ohonom yn mynd ar daith fythgofiadwy i America. Taith berfformio fydd hon; byddwn yn teithio i chwe thalaith wahanol yn canu, dawnsio gwerin, cyflwyno dramâu a chwarae offerynnau. Byddwn yn aros gyda theuluoedd Americanaidd a chawn gyfle i weld golygfeydd arbennig America yn ogystal â gweld perfformiad o Les Miserables. Rydym wedi bod yn paratoi ac ymarfer yn galed am fisoedd. Mae ychydig o ysgolion wedi mentro ar y daith yma a gobeithio y bydd hi'n daith lwyddiannus i ni, wrth gynrychioli nid yn unig Plasmawr ond Cymru hefyd. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at y profiad ac yn gwerthfawrogi'r cyfle arbennig hwn. Elen Hughes a Sophie Elsmore.

# Ymweliad â Gwlad Pwyl

## Gwenllian Glyn

Hwyrach ichi ddarllen yn *Y Dinesydd* am fwriad Ellie a mi i fynd i Wlad Pwyl i weithio mewn cartref i blant amddifad. Dyma ni wedi dod adre'n llawn atgofion.

Ar ôl paratoi am fisoedd a chodi £4000 daeth yr amser inni bacio ein bagiau a chychwyn ar daith 25 awr ym mws mini anghyffyrddus yr Urdd. Er inni ofyn i'r cartref pa fath bethau yr hoffen nhw'u cael gyda'r arian yr unig ateb a gafwyd oedd mai prif obaith y plant oedd y byddem yn siarad â nhw ac yn fodlon bod yn ffrindiau iddyn nhw. Mae'n rhaid eu bod yn blant unig iawn.

Pan gyrhaeddon ni'r cartref yn nhref Legnica oddeutu chwech o'r gloch yr hwyr cawsom groeso cynnes. Roedd wynebau'r plant yn dweud y cyfan. Roedden nhw wedi gwirioni'n llwyr.

Ar ôl setlo yn ein hystafelloedd mi gynhalion ni gêm bêl-droed rhwng y bechgyn a'r merched ac yna, cyn eu rhoi nhw yn eu gwelyau, mi fuon ni'n dysgu caneuon Cymraeg iddyn nhw, rhai megis Lawr ar lan y Môr. Fe gawson ni'r fraint o gael dysgu caneuon Pwyleg ganddyn nhw hefyd.

Bûm i'n siarad ag un ferch fach fethedig y noson honno. Doedd hi erioed wedi gweld camera o'r blaen a gafaelodd yn fy nheclyn syml i fel petai'n ddarn o drysor. Yna gwelodd y freichled ddisglair ar fy ngarddwrn i a chydiodd ynddi mor dynn nes iddi ei thorri'n ddamweiniol. Pan ddaeth yr amser dweud "Nos da" mi afaelodd hi amdanaf i'n gryf, rhoi clamp o sws i mi a siarad ychydig o eiriau annealladwy i mi mewn Pwyleg yn fy nghlust.

Mi godon ni'n gynnar fore trannoeth. Ein bwriad oedd dysgu sgiliau coginio i'r plant ond cyn gwneud hynny roedd angen prynu'r offer angenrheidiol ar gyfer y gegin. Felly bant â ni i Legnica i siopa â £4000 yn llosgi yn ein pocedi. Daeth tri o'r plant gyda ni i'n helpu ac roedden nhw'n credu mai breuddwyd oedd y cyfan. Ar ôl llawer o drafod fe brynon ni fyrddau a



*Gwenllian a'i ffrind*

chypyrddau newydd ac oergell.

Roedd nwyddau mor rhad yno flynyddoedd bod digon o arian yn weddill inni brynu offer, dau brintiwr a sganiwr i'r cyfrifiadur, ffôn a pheiriant fideo hefyd. Yn olaf fe brynon ni baent gwyn a melyn ar gyfer peintio'r gegin a phan ddaeth yr amser gwneud hynny mi gawson ni lawer o hwyl, ond mi gafwyd llanast yno!

Yn ystod ein pythefnos yn y cartref mi dyfodd cyfeillgarwch arbennig rhyngom ni. Cafwyd cyngerdd arbennig ar ein noson olaf yno pryd y darllenwyd Neges Ewyllys Da'r Urdd mewn Cymraeg a Phwyleg. Cyflwynwyd ein hanrhegion i'r plant hefyd a bydd y darlun hapus hwn yn sicr o aros gyda ni am byth.

Roedd hi'n anodd gadael y plant a bu'r dagrau yn llifo am oriau. Byddwn yn cadw cysylltiad â nhw ac ar hyn o bryd rydyn ni'n trefnu iddyn nhw ddod draw i Wersyll Llangrannog i gwrdd â ni yno. Alla i ddim aros am y dyddiad hwnnw.

## Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro

Dro'n ôl cynhaliwyd cystadleuaeth Nabod y Logo gan Bwyllgor Apêl yr Eglwys Newydd fel rhan o'u gweithgareddau er mwyn codi arian ar gyfer yr ŵyl. Enillydd y gystadleuaeth oedd Clare Denman, Claerwen Drive, Caerdydd. Ein llongyfarchion cynhesaf iddi.

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL URDD GOBAITH CYMRU

CAERDYDD a'r Fro

Oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau, methwyd cynnal Eisteddfod Caerdydd a'r Fro fel y bwriadwyd ond mae'r holl gystadlaethau cartref wedi cael eu beirniadu. Mae'r Dinesydd yn falch cyhoeddi i nifer o lwyddiannau ddod i'r cylch. Dyma enwau'r buddugwyr yn y gwahanol gystadlaethau - sef dathliad unigryw o ddoniau plant ac ieuenctid Cymru.

**Rhyddiaith i ddysgwyr - Blynyddoedd. 8 a 9:**
*Trydydd:* Elizabeth Smith, Ysgol Uwchradd Caerdydd.
**Rhyddiaith i ddysgwyr -bl. 10 ac 11:**
*Ail:* Patrick Bidder, Ysgol Uwchradd Caerdydd.
*Trydydd:* Cheryl Emett, Ysgol Uwchradd Bontfaen.
**Rhyddiaith i Ddysgwyr - bl. 12 a 13:**
*Cyntaf:* Louise Brown, Ysgol Uwchradd Caerdydd.
*Ail:* Zoe Thomas, Adran Ysgol Uwchradd Caerdydd.
*Trydydd:* Rebecca Perry, Ysgol Uwchradd Caerdydd.
**Barddoniaeth bl. 1 - 2:**
Ail wobr i Neesha Brown, Ysgol Gymraeg Sant Curig.
**Barddoniaeth bl. 5 a 6:**
Ail wobr i Eluned Ll Morgan, Ysgol Gynradd Iolo Morganwg.
**Barddoniaeth bl. 7:**
Hanner y drydedd wobr i Branwen Hefin, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Barddoniaeth bl. 8:**
Hanner y drydedd wobr i Elin Roberts, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Barddoniaeth bl. 9:**
Rhannu'r drydedd wobr rhwng Rhodri ab Owen a Nerys Williams, y ddau o Ysgol Gyfun Glantaf.
**Barddoniaeth bl. 10 ac 11:**
Rhannu'r drydedd wobr rhwng: Siôn Trefor a Rhiannon Dew, y ddau o Ysgol Gyfun Plas-mawr
**Rhyddiaith bl. 9:**
Gwobr i Elan Isaac ac Anwen Roberts, y ddau o Ysgol Gyfun Plas-mawr.
**Rhyddiaith bl. 12 a 13:**
Trydedd wobr i Gwenllian Glyn Ysgol Gyfun Glantaf
**Rhyddiaith i rai dan 19 oed:**
Gwobr i Iwan Rheon, Ysgol Gyfun Glantaf
**Gwaith ar dâp sain, bl. 7,8,9:**
Gwobr gyntaf i Miriam Isaac, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.
**Cyfansoddi drama bl. 7,8,9:**
Gwobr gyntaf i Meleri Jones, Ysgol Gyfun Glantaf. Hanner y drydedd wobr i Huw Lewis, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg.
**Gwyddoniaeth bl. 3 a 4:**
Gwobr gyntaf i Adran Ysgol Gynradd Sant Curig
**Gwyddoniaeth bl. 7,8,9:**
Trydedd wobr i Mirian Isaac, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
**Gwyddoniaeth bl. 7,8,9:**
Gwobr gyntaf i Atglan, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Gwyddoniaeth bl. 10 ac 11:** Gwobr gyntaf i Yr Atmospherics, Ysgol Gyfun Plas-mawr
**Mathemateg bl. 7,8 a 9:**
Gwobr gyntaf i Eleri Jones, Ysgol Gyfun Glantaf a Thrydedd wobr i: Siân Houdmont, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Crefft, Dylunio a Thechnoleg, Gwaith creadigol 2D**
**bl. 5 a 6:** Ail wobr i Iola Jenkins, Ysgol Gymraeg Iolo Morgannwg. bl. 9: Ail wobr i Tamsin Bryan, Ysgol Gyfun Glantaf.
**bl. 6 ac iau:** Trydedd wobr i Ysgol Gymraeg Coed-y-gof
**Crefft, Dylunio a Thechnoleg, Gwaith creadigol dan 25 oed:**
Gwobr gyntaf i Eleanor Owen, Ysgol Uwchradd Cantonian
**Gwaith creadigol bl. 7,8,9:**
Trydedd wobr i Lois Hughes, Ysgol Gyfun Glantaf
**Caligraffeg, bl. 9:**
Sian Coodye, Ysgol Gyfun Plasmawr.
**Cystadleuaeth bypedau bl. 2 ac iau:**
Ail wobr i Lydia Jones, Ysgol Gynradd Sant Baruc
**Pypedau, bl. 3 a 4:**
Ail wobr i Phillipa Hopkin, Ysgol Gynradd Iolo Morgannwg.
**Gwaith creadigol, Tecstiliau, bl. 10 ac 11:**
Gwobr gyntaf i Zoe Knight, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Argraffu neu addurno ffabrig, bl. 9:**
Gwobr gyntaf i Sali Howells, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Gwaith creadigol, Tecstiliau, bl. 7 ac 8:**
Gwobr gyntaf i Ysgol Fitzalan.
**Gweu neu grosio, bl. 10 ac 11:**
Gwobr gyntaf i Zoe Knight, Ysgol Gyfun Glantaf
**Ffasiwn bl. 10 ac 11:**
Hanner y wobr gyntaf i Gemma Couthard, Ysgol Gyfun Glantaf
**Print Lliw, bl. 2 ac iau:**
Gwobr gyntaf i Isabella Hughes, Ysgol Gymraeg Pwll Coch
**Cyfres o brintiau du a gwyn dan 25 oed:**
Gwobr gyntaf i Illtud Llyr Dunsford, Rhiwbeina.
**Cyfres o brintiau lliw dan 25 oed:**
Gwobr gyntaf i Illtyd Dunsford, Rhiwbeina
**Dylunio a thechnoleg, bl. 7 ac 8:**
Gwobr gyntaf i Rhianedd Johnson, Ysgol Gyfun Glantaf.
**Dylunio a thechnoleg, bl. 9:**
Gwobr gyntaf i Sali Howells, Ysgol Gyfun Glantaf
**Dylunio a thechnoleg, bl. 10 ac 11:**
Gwobr gyntaf i Jemma Hortop, Ysgol Gyfun Plas-mawr
**Dylunio a thechnoleg, bl. 12 ac 13:**
Gwobr gynaf i Anna Walyniki, Ysgol Gyfun Glantaf
**Creu arteffact: bl. 9:**
Gwobr gyntaf i Hywel Tyler, Ysgol Gyfun Glantaf

## Gideon Peterson y Gof

Gwneuthurwr tlysau Gŵyl yr Urdd ar S4C a Radio Cymru oedd Gideon Peterson, 30 oed o San Clêr. Pan oedd yn 17 oed enillodd Wobr Gelf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd. Mae brawd i Gideon, sef Aaron, yn gweithio fel gof yn yr efail yn Amgueddfa Sain Ffagan ac mae wrthi'n dysgu'r Gymraeg. Mae Gideon a'i frawd arall, John a'u tad David yn gweithio fel gofaint yn eu stiwdio yn San Clêr.

## Urdd yr Awyr

Enillodd llawer o Gaerdydd a'r cylch wobrau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar yr awyr yn ddiweddar. Mae ein llongyfarchiadau i Owain Siôn Llwyndyrus, Llŷn a enillodd y Fedal Lenyddiaeth. Cafodd ei eni yng Nghaerffili ond fe'i magwyd yn Llwyndyrys, Llŷn. Bydd yn cychwyn yn athro'r Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Glantaf ym mis Medi. Estynnwn ein croeso cynhesaf iddo i Gaerdydd.

Llongyfarchion hefyd i Gwerfyl Michael o Lanbedr y Fro sy'n astudio yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth. Daeth hi'n ail am y Fedal Lenyddiaeth. Daeth Angharad ap Robert yn gyfartal drydydd yn yr un gystadleuaeth. Roedd hi a'i theulu yn byw yng Nghaerdydd am flynyddoedd cyn symud i Gricieth i fyw. Llongyfarchion iddi hi hefyd. Angharad Elen, sy'n astudio yng Ngholeg y Brifysgol, a ddaeth yn drydydd yng nghystadleuaeth y Goron tra daeth Elin Mair Thomas, Caerdydd, yn gyfartal ail am y Fedal Ddrama.

Luned Emyr a gipiodd y Fedal Ddrama am yr ail dro. Mae ei theulu hi'n byw yng Nghaerdydd bellach er iddi hi gael ei magu ym Mangor. Cefnder iddi hi yw Ceiri Torjussen gynt o Riwbina sydd wedi ennill y fedal am gyfansoddi cerddoriaeth fwy nag unwaith yn y gorffennol. Rydyn ni'n falch ohonyn nhw i gyd.

# CHWARAEON

## Ffarwelio â chyfaill

Am nifer o flynyddoedd mae Thomas Davies wedi cynnal colofn chwaraeon yn *Y Dinesydd.* Roedd ei ddeunydd diddorol yn dod yn rheolaidd bob mis. Yn anffodus does dim ganddo'r mis hwn am ei fod yng ngeiriau Goronwy Owen gynt wedi penderfynu "dychwel i'r wlad lle bu fy nhadau" fwy neu lai. Cafodd Thomas ei eni ym Mwlchsarnau, ardal uwchben Abaty'r Cwm Hir ym Maesyfed. Aeth i fyw gyda'i deulu i Gwm Elan ac o'r ysgol yno aeth i Ysgol Llandrindod i gael ei addysg uwchradd. Yr adeg honno doedd y Gymraeg ddim yn rhan o'i gynhysgaeth ond penderfynodd ddysgu'r iaith ac mae wedi bod yn rhugl ynddi ers nifer o flynyddoedd ac wedi cyfrannu erthyglau drwyddi i nifer o gylchgronau. Nawr mae'n symud i fyw i Raeadr Gwy a chan ddiolch iddo am ei holl waith da mae'r Dinesydd am ddymuno iechyd a dedwyddwch iddo yn ôl gyda'i wreiddiau.

## Rhodri'n cymryd camau pwysig



UN O GYN DDISGYBLION Ysgol Uwchradd Glantaf yw Rhodri Jones. Pan oedd yn un ar bymtheg oed gadawodd yr ysgol i ymuno â Manchester United gan mai pêl-droed yw un o'i ddiddordebau mwyaf. Roedd wrth ei fodd yno, ond fel llawer o'i ffrindiau yn y tîm ieuenctid câi ei siomi braidd gan bolisi'r clwb cyfoethog hwn. Pan oedd am lenwi bwlch yn rhywle yr hyn a wnâi oedd troi at ei lyfr sieciau a thalu arian mawr am chwaraewr o'r cyfandir gan ei gwneud hi'n anodd iawn i'r criw ifanc dorri i mewn yn unman.

Mae Rhodri yn chwarae yng nghanol y cae a gwyddai y byddai angen iddo ddisodli rhai fel Jaap Stam ac eraill cyn ennill ei le yn y tîm cyntaf a phenderfynodd newid cwrs ei fywyd gan mai ei uchelgais (a pham lai) yw chwarae o flaen tyrfaoedd mewn tîm cyntaf. Cafodd gynnig gan sawl tîm, gan gynnwys Wrecsam, ond roedd wedi bod yn cadw llygad ar Rotherham, dros y mynydd o Fanceinion. Mewn cyfnod byr roedd wedi dringo o'r drydedd adran i'r adran gyntaf ac roedd yno griw da o bobl uchelgeisiol. Mae wedi penderfynu ymuno â nhw a'i obaith yn awr y bydd yn chwarae i'r tîm cyntaf cyn hir. Mae Rhodri'n lwcus ei fod yn defnyddio'i ddwy droed yn naturiol. Nid pob chwaraewr sy'n gallu cicio pêl yn dda â'i droed chwith ac mae'n bosibl y bydd yn awr yn chwarae fel cefnwr chwith - a bydd sawl un o ddarllenwyr Y Dinesydd yn troi at ganlyniadau Rotherham y tymor nesaf. Pob lwc i Rhodri yn ei ardal newydd.

## Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd




Fel mae'r enw'n awgrymu, clwb rygbi i ieuenctid yw CRICC, i fechgyn a merched Caerdydd a'r cylch. Nawr ar ddechrau ei unfed tymor ar ddeg swyddogol, rydyn ni'n cynnal timau rygbi i oedrannau dan wyth hyd at dan bedair ar ddeg mlwydd oed ac mae'n agos at ddau gant o aelodau erbyn hyn.

Y Gymraeg yw iaith swyddogol CRICC a'r nod yw cynnal pob agwedd o'r gweithgareddau yn Gymraeg gyda chyfieithiadau o'n gohebiaeth ar gael i rieni a theuluoedd sy'n ddi-Gymraeg. Yn y gorffennol rydyn ni wedi ceisio cynnal yr hyfforddi a'r gêmau ar fore Sadwrn ond, o Fedi, 2001, byddwn yn amrywio rhain gyda rhai boreau dydd Sul er mwyn hwyluso'r gwaith o drefnu gêmau. Yn anffodus, CRICC yw'r unig glwb yn Ne Cymru sydd yn ymarfer / chwarae ar ddydd Sadwrn ac mae hyn yn gwneud y gwaith o drefnu gêmau yn anodd iawn.

Yn ystod y saith mlynedd diwethaf bu CRICC yn ymarfer ar dir Ysgol Plasmawr, Caerdydd ond ym mis Medi 2001 bydd y clwb yn symud i Faes y Diamwnt yn yr Eglwys Newydd, cartref clwb rygbi Cardiff High School Old Boys - neu Cardiff Harlequins i rai. Fe fydd y safle newydd yn cynnig nifer fawr o fanteision i CRICC gyda phedwar maes rygbi mewn lleoliad diogel a'r cyfleusderau eraill a ddisgwylir o glwb rygbi o safon, fel cawodydd a lolfa fawr glyd!

Erbyn hyn mae CRICC wedi datblygu perthynas gyda nifer o glybiau rygbi pell ac agos sydd yn gwerthfawrigi'r dull chwarae agored a chyffrous sydd yn nodweddiadol o'r clwb. Ryyn ni'n chwarae, ac yn dal ein tir yn erbyn, clybiau amlwg fel Penarth, Pentyrch a Llandaf yn lleol, Llanymddyfri a Phontarddulais o'r Fro Gymraeg a phob yn ail flwyddyn byddwn yn ymweld â chlwb Prifysgol Brest yn Llydaw gyda'n timau hŷn.

Felly, os oes diddordeb gyda'ch plentyn / plant chi mewn chwarae rygbi o safon drwy gyfrwng y Gymraeg, dewch atom â phleser. Rhaid i'r plentyn fod o leiaf yn chwe mlwydd oed ac nid yn hŷn na phedair ar ddeg oed ar y cyntaf o Fedi, 2001.

Mae 'na groeso, hefyd, i rieni gymryd rhan mewn llawer o ffyrdd. Rydyn ni'n talu i rieni fynychu cyrsiau swyddogol Undeb Rygbi Cymru ar hyfforddi os byddan nhw'n dymuno helpu drwy wneud hynny. Rhaid iddynt fedru'r Gymraeg i fod yn brif hyfforddwr blwyddyn arbennig ond mae 'na alw ar rieni gynorthwyo hyfforddwyr gyda threfniadau tîm, edrych ar ôl Cymorth Cyntaf, safle gwe a materion mwy syml ond pwysig fel glanhau ystafelloedd newid ar ôl gêmau neu ymarferion.

Dewch atom, felly, â phleser. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth cysylltwch ag unrhyw un o'r swyddogion neu ffoniwch Huw Jones ar Caerdydd 20842811 gyda'r hwyr neu ar y penwythnos.



# TELYNAU VINING HARPS

Dosbarthwr telynau Camac
Distributor of Camac harps

**Mae telynau ac offer telyn Camac ar gael drwy gwmni Telynau Vining, Caerdydd... denyddiau, crefftwaith a sain o safon uchel am bris cystadleuol.**

**Telynau pedal**
**Telynau Celtaidd**
**Telynau trydan**
**Offer telyn**
**Gorchuddion telyn**
**Telynau i'w rhentu**

**Cysylltwch â Elen Vining**

**Telynau Vining Cyf.**
21 Heol Wingfield, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 1NJ
Ffôn/Facx (0290) 529084
E-bost: telynayviningharps@cwcom.net

Meithrinfa Gymraeg

# Miri Mawr

19 Ffordd Gabalfa, Ystum Taf, Caerdydd

Ym mis Medi bydd meithrinfa Gymraeg newydd yn agor yn Ystum Taf yng Nghaerdydd ar gyfer plant o chwe wythnos oed hyd at bum mlwydd oed. Bydd y feithrinfa yng ngofal dwy athrawes brofiadol a bydd yn darparu'r gofal a'r addysg orau trwy gyfrwng Gymraeg.

Felly peidiwch oedi
Ffoniwch Meinir i sicrhau lle i'ch plentyn
**(029) 20344638**

Rydym hefyd yn chwilio am famau sy'n awyddus i weithio'n rhan amser neu'n llawn amser.

Cysylltwch â Wendy am fwy o fanylion.
(029) 20212910

